**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed**

Rwyf yn croesawu Adroddiad y Pwyllgor Deisebau a'r cyfle i drafod yr hyn yr ydym am ei wneud i ddatblygu Dysgu Seiliedig ar Waith yn arbennig mewn perthynas â chefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc drwy ddarparu addysg o safon uchel yng Nghymru'n dal yn un o fy mhrif flaenoriaethau.

Mae nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi presennol, felly rwy'n falch o allu derbyn y mwyafrif ohonynt. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i rai ohonynt o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, ond rwy'n cefnogi bwriad y camau arfaethedig hyn ac yn credu y dylid cymryd camau i gyflawni'r canlyniad a fwriedir.

Mae'r agenda hwn yn hynod o heriol, yn arbennig mewn cyfnod economaidd fel hwn. Mae'r dirwasgiad wedi arwain at gynnydd mewn diweithdra yng Nghymru a gwyddom fod pobl ifanc dan anfantais anghymesur wrth gystadlu â phobl hŷn sy'n chwilio am waith. Fodd bynnag, er gwaethaf setliad heriol gan Lywodraeth y DU, byddwn yn blaenoriaethu hyfforddiant sgiliau, yn cadw at ein hymrwymiad i'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru ac yn parhau i ganolbwyntio ar yr agenda ymgysylltiad â chyflogaeth pobl ifanc. Adlewyrchir hyn yn y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad â Chyflogaeth Pobl Ifanc a gyhoeddwyd ar ôl y drafodaeth derfynol ar 12 Ionawr 2011. Mae'r cynllun yn amlinellu dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o gefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'r farchnad lafur a sut i roi sylw i ddiffyg ymgysylltu ag addysg.

Diolch i'r Pwyllgor Deisebau am ei gefnogaeth i fynd i'r afael â'r agenda hwn ac am yr argymhellion y mae wedi'u gwneud. Amlinellir isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad. Bydd adroddiad y Pwyllgor, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y broses o'i baratoi, yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu a gwella ein Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith.

**Amlinellir isod yr ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Deisebau:**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 1:** Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Gyrfa Cymru a darparwyr dysgu unigol yn ymgymryd ag asesiad digonol a chadarn o anghenion er mwyn sicrhau bod darpariaeth wedi'i chynllunio ar sail anghenion dysgwyr unigol.

**Ymateb - Derbyn**

Mae Swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio ar hyn o bryd ar y cyd a Gyrfa Cymru a chynrychiolwyr o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i ddatblygu proses gyfeirio fwy cadarn ar gyfer dysgwyr fydd yn ymuno

â'r rhaglen Hyfforddiaethau o 2011 - 2014. Mae'r broses gyfeirio newydd hon yn cryfhau ac yn adeiladu ar y broses gymeradwyo bresennol ac yn ceisio nodi anghenion dysgwyr yn gywirach er mwyn hysbysu darparwyr o'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer datblygiad y person ifanc.

Bydd y broses gyfeirio newydd yn cael ei threialu ddechrau Ionawr 2011 a'r nod yw ei chwblhau erbyn diwedd Chwefror. Bydd y cynllun treialu'n cael ei adolygu a'i werthuso ym Mawrth i nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen a/neu ddatblygiadau pellach cyn ei weithredu o Awst 2011.

Er mwyn monitro bod anghenion dysgwyr yn cael sylw priodol, mae swyddogion yn datblygu system newydd ar gyfer arolygon dysgwyr ar draws y sector ôl-16. Bydd hon yn seiliedig ar set o gwestiynau craidd a weinyddir gan yr holl ddarparwyr yn eu harolygon dysgwyr; bydd y cwestiynau, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn ymwneud â barn dysgwyr ynglŷn â:

- Chyngor ac arweiniad
- Addysgu a dysgu
- Ymatebolrwydd
- Cymorth dysgu
- Lles

Bydd yr arolygon hyn yn rhoi trosolwg eang o brofiad cyffredinol dysgwyr, a byddant yn tanlinellu arfer da a meysydd gwella ar gyfer pob darparwr.

Hefyd bydd y broses adolygu ar gyfer cyfeiriadau Gyrfa Cymru'n nodi lle mae angen cymorth dysgu ychwanegol.

**Goblygiadau Ariannol**:

Bydd cost y gwasanaethau diwygiedig yn cael eu cwrdd o fewn lefelau cyllideb a gynlluniwyd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 2:** Bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygu fframwaith arfer gorau ar gyfer caffael sgiliau sylfaenol. Dylai'r fframwaith hwn annog darparwyr i gyflenwi rhaglenni sgiliau sylfaenol yn y modd mwyaf addas a phriodol i ddysgwyr.

**Ymateb – Derbyn**

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn ar sail bod fframwaith arfer gorau o'r fath eisoes yn ei le ar gyfer yr holl ddarparwyr sy'n cyflenwi rhaglenni sgiliau sylfaenol. Mae'r Safon Ansawdd Sgiliau Sylfaenol yn berthnasol ar draws sefydliad cyfan a rhaid i ddarparwyr fodloni pum safon ar gyfer cynllunio, rheoli a chyflenwi sgiliau sylfaenol. Mae'r safonau'n cynnwys rhaglen addysgu effeithiol sy'n cynnwys cynllunio, adolygu a monitro cynnydd dysgwyr gydag anghenion sgiliau sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes raid i ddarparwr o dan

drefniadau contract presennol Dysgu Seiliedig ar Waith gyrraedd y safon hon, h.y. gallen nhw fod yn gweithio tuag ati.
Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wahoddiad i Dendro am gyflenwi Rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith - Prentisiaethau [yn cynnwys dysgu hyblyg], Hyfforddiaethau (Pobl Ifanc), a Camau at Waith (Oedolion) 2011/2014. Yn y tendr Gwaith Seiliedig ar Ddysgu diwethaf ***rhaid*** i'r holl ddarparwyr sy'n cyflenwi darpariaeth i bobl ifanc gyrraedd Nod Ansawdd Sgiliau Sylfaenol erbyn Gorffennaf 2012.

Mae'r gwahoddiad i Dendro ar hyn o bryd yn mynd trwy gamau tendro sensitif a bydd darparwyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu ym Mawrth 2011.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim goblygiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell :

**Argymhelliad 3:** Bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno rhaglen o gyrsiau paratoadol i alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau mwyaf sylfaenol cyn ymuno â rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ffurfiol. Dylid ystyried a ellid rhoi rhaglenni sydd eisoes wedi'u sefydlu ar waith yn effeithiol ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf yn cytuno'n llawn â'r argymhelliad hwn.

Mae'r rhaglen ieuenctid olynol i Adeiladu Sgiliau (Hyfforddiaethau), fydd yn dechrau yn Awst 2011, yn cynnig 3 llinyn diffiniedig i bobl ifanc ddi-waith eu dilyn. Bwriad yr opsiwn hyfforddi 'Ymgysylltiad' ar lefel mynediad yw cynnig rhaglen ddysgu baratoadol i unigolion sydd angen mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag dysgu, yn cynnwys, ond heb fod yn benodol, datblygu'r sgiliau mwyaf sylfaenol, cyn symud ymlaen i'r rhaglen Hyfforddeiaeth sydd â mwy o ffocws neu opsiynau dysgu eraill.

Bydd y llinyn Ymgysylltiad yn cynnwys defnyddio lleoliadau gwaith cyflogwyr, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol a chyfleoedd dysgu mewn canolfannau i hybu datblygiad pob dysgwr cyn cael gwaith neu ymuno â rhaglen ddysgu bellach.

Bydd y rhaglen Hyfforddeiaeth yn cael ei gweithredu drwy Gymru.

Yn ogystal â hyn, fel rhan o un o'r camau sydd yng Nghynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda chyrff gwirfoddol i dreialu elfennau o 'Lwybr at Waith' newydd ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed. Elfennau o Lwybr at Waith, lle byddwn yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a'r gymuned yw'r:

- Rhaglen profiad gwaith gwirfoddol newydd fydd yn targedu pobl ifanc 16 ac 17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd).

- Cyfle Marchnad Lafur Drosiannol (tebyg i Gronfa Swyddi'r Dyfodol i bobl ifanc 16 ac 17 oed) ar gyfer pobl ifanc sydd 'ond eisiau swydd', yn hytrach na chyfle i hyfforddi. Byddai'r person ifanc yn cael ei gyflogi am gyfnod o 6 mis, trwy wasanaethau presennol a ddarperir gan CGGC.

- Yn olaf, Cynllun Cyfrifon Segur. Mae hon yn fenter newydd fydd yn galluogi i arian a gedwir mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu 'segur' gael ei ail-fuddsoddi er budd y gymuned. Un o'i flaenoriaethau yng Nghymru fydd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

I ddeall y rhaglenni peilot hyn yn llawn, gweler Argymhelliad 6.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae cost datblygu'r dull hwn wedi'i  gynnwys yng nghostiadau cyffredinol darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith. Cytunwyd ar gost cyllideb ar gyfer y prosiectau peilot fel rhan o Gynllun Gweithredu Ymgysylltiad Pobl Ifanc.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 4:** Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod arfer gorau rhwng darparwyr wrth sicrhau lleoliadau'n cael ei ledaenu a'i rannu â'r holl ddarparwyr dan gontract. Dylid cwblhau hyn mewn pryd ar gyfer dechrau'r contractau newydd yn 2011.

**Ymateb:  Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Swyddogion yn fy adran yn gweithio ar hyn o bryd ar y cyd â Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i sefydlu canllaw arfer effeithiol i'w roi i'r darparwyr hynny sy'n llwyddiannus yn y cylch tendro am gontractau sy'n dechrau  2011 - 2014.

Mae'r canllaw arfer gorau yn ceisio adlewyrchu'r cysyniadau a'r dulliau sy'n effeithiol wrth gyflenwi'r rhaglen Adeiladu Sgiliau bresennol mewn perthynas ag (i) Ymgysylltu â'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; (ii) Ymgysylltiad Cyflogwyr (rhaglenni Pobl Ifanc ac Oedolion), sicrhau swyddi a lleoliadau pellach; a (iii) Gwella Cynnydd.

Mae nodiadau canllaw i gyd-fynd â'r contractau newydd ar gyfer 2011 - 2014 wrthi'n cael eu cwblhau. Bydd nodiadau canllaw'n annog darparwyr i wneud cysylltiadau â phrosiectau cymunedol lleol a chyrff gwirfoddol gyda golwg ar wella profiad dysgwyr, yn ogystal â sefydlu perthynas dda â chyflogwyr er mwyn hybu a chryfhau lleoliadau seiliedig ar waith i bobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol** :

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell :

**Argymhelliad 5:** Bod Llywodraeth Cymru’n arddel rôl fwy strategol wrth hybu buddion dysgu seiliedig ar waith i helpu i gael mwy o gyflogwyr i gymryd rhan. Dylai’r gwaith hwn ganolbwyntio ar annog cyflogwyr i dderbyn yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd fwyaf agored i niwed, a sicrhau bod cyflogwyr yn y meysydd sector hynny lle mae yna fwy o alw nag sydd o leoedd yn cymryd rhan. Dylid canolbwyntio’n benodol hefyd ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael, lle ceir anhawster ychwanegol wrth sicrhau lleoliadau.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n gweithredu cynllun marchnata a chyfathrebu ar gyfer y rhaglen beilot Llwybrau at Waith. Bydd yn targedu pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant, yn arbennig y rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth gyflogaeth, er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae strategaeth a thactegau i ymgysylltu â chyflogwyr a’u cymell i gyflogi’r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ganolog i’r cynlluniau hyn. (Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 7).

Mae’r cynlluniau cyfathrebu a marchnata Prentisiaeth yn dal i flaenoriaethu cyflogwyr fel y brif gynulleidfa darged er mwyn cynyddu faint sy’n cymryd rhan yn y rhaglen.

Fel y nodwyd yn argymhelliad 4, mae’r canllaw arfer gorau sydd wrthi’n cael ei ddatblygu’n adlewyrchu cysyniadau a dulliau sy’n effeithiol wrth gyflenwi’r rhaglen Adeiladu Sgiliau bresennol mewn perthynas ag Ymgysylltiad Cyflogwyr (rhaglenni Pobl Ifanc ac Oedolion), sicrhau swyddi a lleoliadau blasu.

Bydd nodiadau canllaw a gyflwynir gyda’r contractau newydd yn annog darparwyr i wneud cysylltiadau â phrosiectau cymunedol lleol a chyrff gwirfoddol gyda golwg ar wella profiad dysgwyr, yn ogystal â sefydlu perthynas dda â chyflogwyr er mwyn hybu a chryfhau lleoliadau seiliedig ar waith i bobl ifanc.

Er mwyn cynnig darpariaeth addysg lle y bo’i angen, rhoi sylw i faterion capasiti a’r angen i sicrhau niferoedd hyfyw, rhan o agenda Trawsnewid Llywodraeth y Cynulliad yw annog darparwyr ar draws pob math o addysg ôl 16 i fabwysiadu dull tebyg i gonsortia neu bartneriaeth ac mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth o fewn rhaglen Adeiladu Sgiliau a’i rhaglenni olynol (Hyfforddiaethau - Pobl Ifanc; Camau at Waith - Oedolion).

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Wahoddiad i Dendro ar gyfer cyflenwi'r Rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith,, Prentisiaethau yn cynnwys dysgu hyblyg, Hyfforddiaethau, a Camau at Waith, ar 6 Gorffennaf 2010. Yn y tendr nodir bod yn rhaid i ddarparwyr, os oes angen, gyflenwi trwy ddulliau consortia er mwyn sicrhau bod yr amrywiaeth o bynciau ar gael ar draws Cymru gyfan, yn cynnwys ardaloedd gwledig.

**Goblygiadau Ariannol** :

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol at y rhai a gyfrifwyd eisoes ar gyfer y gyllideb farchnata 2011 - 12.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 6:** Fel rhan o arddel rôl fwy strategol, bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai rhaglen dysgu seiliedig ar waith benodol sy'n canolbwyntio ar y sector gwirfoddol yn helpu i wella cyfleoedd a chyfraddau cynnydd ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan fod y rhaglen Hyfforddiaethau newydd (pobl ifanc), fydd yn dechrau yn Awst 2011/2014, yn bwriadu rhoi sylw i fater ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.

Mae manyleb y rhaglen Hyfforddiaethau'n nodi'n benodol yn ei chylch gwaith y bydd disgwyl i ddarparwyr wneud cysylltiadau â phrosiectau cymunedol lleol a chyrff gwirfoddol gyda golwg ar wella profiad dysgwyr.

Yn ogystal â hyn, fel rhan o un o'r camau sydd yng Nghynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda chyrff gwirfoddol i dreialu elfennau o 'Lwybr at Waith' newydd gyda phobl ifanc 16 ac 17 oed. Nid yw 'Llwybr at Waith' yn rhaglen newydd ond yn hytrach mae'n cynnig un llwybr hyblyg, cydlynol ar gyfer pobl ifanc nad oes ganddynt ymgysylltiad positif na chynaliadwy ag un o'r prif opsiynau ôl-16.

Dyma elfennau o Lwybr at Waith lle byddwn yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a'r gymuned:

- Y rhaglen profiad gwaith gwirfoddol newydd fydd yn targedu pobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd) ac nad oes ganddynt y sgiliau na'r hyder i ddechrau cwrs hyfforddi na chael gwaith. Byddent yn cael sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau cymdeithasol gyda golwg ar arwain at lwybr cynnydd priodol. Byddai'r rhaglen hon yn rhoi pwyslais cryf ar wirfoddoli fel ffordd o ddatblygu hyder ac adeiladu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith yn hytrach na chael ei ystyried fel dewis olaf.

- <u>Cyfle Marchnad Lafur Drosiannol</u> (tebyg i Gronfa Swyddi'r Dyfodol i bobl ifanc 16 ac 17 oed) ar gyfer pobl ifanc sydd 'ond eisiau swydd', yn hytrach na chyfle i hyfforddi. Byddai'r person ifanc yn cael ei gyflogi am gyfnod o 6 mis, trwy wasanaethau presennol a ddarperir gan CGGC.

  Bydd y Farchnad Lafur Drosiannol yn cael ei darparu trwy CGGC fydd yn llunio contract â chyrff sy'n gallu cefnogi a datblygu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a bydd yn cynnig cyflogaeth strwythuredig, berthnasol, a chefnogol i'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur er mwyn rhoi sgiliau newydd, mwy o hyder a gwaith i'r cyfranogwyr.

Yn olaf, mae'r Cynllun Cyfrifon Segur yn fenter newydd fydd yn galluogi i arian a gedwir mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu 'segur' gael ei ail-fuddsoddi er budd y gymuned. Un o'i flaenoriaethau yng Nghymru fydd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Byddwn yn gweithio gyda Chronfa'r Loteri Fawr a'r sector gwirfoddol i wneud defnydd llawn o arian mewn cyfrifon segur er mwyn ariannu prosiectau arloesol i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru – i helpu i atal diffyg ymgysylltiad ac annog pobl ifanc i ymgysylltu o'r newydd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Goblygiadau Ariannol** :

Mae cost y rhaglen Hyfforddeiaeth wedi'i gynnwys yng nghostiadau cyffredinol darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith. Cytunwyd ar gost cyllideb ar gyfer y prosiectau peilot fel rhan o Gynllun Gweithredu Ymgysylltiad Pobl Ifanc.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 7:** Bod Llywodraeth Cymru'n ystyried yr argymhellion hynny a ddaw i'r fei o adolygiad y DU o ymgysylltiad cyflogwyr a fydd yn helpu i gynyddu lleoliadau.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad i ystyried yr argymhellion hynny'n a ddaw i'r fei o adolygiad UKCES o ymgysylltiad cyflogwyr.

Fodd bynnag, cyn ei ystyried, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno 'Y Sgwrs Go Iawn' yn ystod gwanwyn 2011. Ei nod yw cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i waith trwy ddod â chyflogwyr, pobl ifanc ac ymarferwyr at ei gilydd i wella profiad gwaith a chyfleoedd gwaith i rai rhwng 14-24.

Trwy ddod â phobl ifanc a chyflogwyr at ei gilydd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n:

- hyrwyddo buddion a gwerth profiad gwaith i bobl ifanc, cyflogwyr, ysgolion a cholegau
- darparu gwybodaeth am ddarpariaeth a rhaglenni ar gael i bobl ifanc a Chyflogwyr e.e. prentisiaethau, cyfleoedd i raddedigion
- creu fforwm i bobl ifanc leisio'u disgwyliadau a'u pryderon am waith ac i fusnesau roi adborth am eu profiad o recriwtio pobl ifanc.

Bydd hyn yn ymateb i'r her busnes i recriwtio gweithlu gyda sgiliau ac agweddau priodol a sicrhau bod gan bobl ifanc ddarlun clir a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau cytbwys o ran gyrfa.

Nid digwyddiad untro yn unig fydd hwn lle caiff atebion eu hysgrifennu ar siart droi ac yn eu rhoi o'r neilltu. Rydym yn bwriadu gweithredu camau gwirioneddol yn dilyn y digwyddiad cyntaf fydd yn llywio rhaglen o sgyrsiau tebyg rhwng cyflogwyr a phobl ifanc drwy'r flwyddyn. Bydd y sgwrs hefyd yn adeiladu ac yn parhau ar-lein trwy fforymau ar y we a sianeli cyfryngau cymdeithasol i greu a chynnal diddordeb byw yn y prosiect.

**Goblygiadau Ariannol** :

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol gan fod y gost ar gyfer y gwaith hwn eisoes wedi'i gynnwyd o fewn cyllideb Llwybrau at Waith.

Mae'r Pwyllgor yn argymell :

**Argymhelliad 8:** Bod Llywodraeth Cymru'n llunio protocolau i sicrhau bod trefniadau pontio rhwng darparwyr yn cael eu gwella, fel nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol rhag gwneud cynnydd.

**Ymateb - Derbyn**

Yn yr ymarfer tendro Dysgu Seiliedig ar Waith diweddaraf a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2010, manteisiwyd ar y cyfle i gynnwys y paragraff canlynol gyda manyleb y tendr:

"Mae angen i'r rhai sy'n tendro am y rhaglen Hyfforddiaethau allu cyflenwi'r rhaglen gyfan fel yr amlinellir ym Manyleb y Rhaglen." Yn unol â hyn, fel rhan o fanyleb y tendr, anogwyd bidiau consortia.

Trwy fabwysiadu'r dull hwn o gyflenwi rhaglenni olynol i Adeiladu Sgiliau (h.y. Hyfforddiaethau - Pobl Ifanc; Camau at Waith - Oedolion), y bwriad yw y bydd dysgwyr yn gallu gwneud cynnydd yn haws trwy lefelau'r rhaglen gan fod yn rhaid i'r darparwr sy'n cyflenwi allu darparu, neu gysylltu â'r ystod lawn o gyfleoedd dysgu. Dylai trefniadau gweithredu o'r fath hefyd sicrhau y byddai llai o broblemau wrth drosglwyddo o'r naill ddarparwr i'r llall gan fod yr un amodau contract yn berthnasol i'r holl ddarparwyr.

**Goblygiadau Ariannol** :

Dim goblygiadau ariannol .

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 9:** Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn bodloni eu gofynion i nodi unrhyw anghenion dysgwr am gymorth ychwanegol ar ddechrau'r cwrs.

**Ymateb – Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. O dan delerau'r contractau Dysgu Seiliedig ar Waith newydd 2011/14, mae Cymorth Dysgu Ychwanegol ar gael i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n:

i. deillio o anhawster dysgu a/neu anabledd
ii. ychwanegol at yr hyn a ddarperir yn y rhaglen ddysgu; a'i
iii. fod yn angenrheidiol i alluogi i'r dysgwyr unigol gyflawni

Er mwyn monitro bod anghenion dysgwyr yn cael sylw priodol, mae swyddogion yn datblygu system newydd ar gyfer arolygon dysgwyr ar draws y sector ôl-16. Bydd hon yn seiliedig ar set o gwestiynau craidd a weinyddir gan yr holl ddarparwyr yn eu harolygon dysgwyr; bydd y cwestiynau, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn ymwneud â barn dysgwyr ar:

- Gyngor ac arweiniad
- Addysgu a dysgu
- Ymatebolrwydd
- Cymorth dysgu
- Lles

Bydd yr arolygon hyn yn rhoi trosolwg eang o brofiad cyffredinol dysgwyr, a byddant yn tanlinellu arfer da a meysydd gwella ar gyfer pob darparwr.

Hefyd, bydd y broses ddiwygiedig (fel y manylir yn argymhelliad 1) ar gyfer cyfeiriadau Gyrfa Cymru yn nodi lle mae angen cymorth dysgu ychwanegol.

**Goblygiadau Ariannol** :

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell :

**Argymhelliad 10:** Bod Llywodraeth Cymru'n adeiladu ar waith yr Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau nad yw diffyg rhannu gwybodaeth yn rhwystr rhag cymorth personol effeithiol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr holl asiantaethau'n ymwybodol o wahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd wrth ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Mae fy swyddogion yn APADGOS, Busnes a Sgiliau wedi sefydlu Bwrdd Cyflenwi Cyflogaeth ar y Cyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i helpu gyda'r gwaith o gynllunio a chyflenwi polisi a gwasanaethau yng Nghymru. Byddaf yn comisiynu'r Bwrdd i ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach ac ymchwilio i'r gwaith a wnaed eisoes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a chanlyniad y gwaith hwnnw.

Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol mewn ymateb i argymhelliad 1, mae fy swyddogion yn y broses o ddatblygu proses gyfeirio fwy cadarn ar gyfer arweinwyr pobl ifanc fydd yn cael mynediad i olynydd y rhaglen Adeiladu Sgiliau [Hyfforddiaethau] o 2011/2014. Mae'r broses gyfeirio newydd hon yn cryfhau ac yn adeiladu ar y broses gymeradwyo bresennol ac yn ceisio nodi anghenion ychwanegol dysgwyr yn gywirach a hysbysu darparwyr fel bod modd cynnig cymorth priodol a pherthnasol i'r person ifanc. Fel rhan o'r broses rhaid i'r person ifanc gytuno â'r wybodaeth a rennir â'r darparwr a'r asiantaethau perthnasol.

**Goblygiadau Ariannol** :

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell :

**Argymhelliad 11:** Bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ddichonoldeb darparu cynghorydd personol i bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ond nad ydynt yn gadael gofal.

**Ymateb – Cytuno mewn egwyddor**

Rwyf yn cytuno mewn egwyddor ar sail bod hwn yn faes cymhleth a bydd yn cynnwys ystyriaeth fewnol gyda nifer o rannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd, cefnogir cynghorwyr personol drwy Awdurdodau Lleol a chyrff allanol eraill. Mae pob plentyn sydd mewn angen neu mewn risg yn gymwys i gael asesiad o'u hanghenion a chefnogaeth eu hawdurdod lleol. Amlinellir swyddogaethau a chyfrifoldebau cyflenwi gan Awdurdodau Lleol a chymhwysedd plentyn mewn deddfwriaeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ariannu MEIC (Microffon), sef llinell gymorth ddwyieithog am ddim sy'n cynnig cymorth ac eiriolaeth. Hon yw'r gyntaf o'i math ar lefel genedlaethol. Mae'n cynnig pwynt cyswllt unigol i blant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed yng Nghymru trwy ffonio, negeseuon testun a negeseuon gwib 7 diwrnod yr wythnos. Lansiwyd y llinell gymorth ym Mai 2010 ac yn ddiweddar fe'i hehangwyd yn wasanaeth 24 awr.

Mae'r llinell gymorth yn rhoi gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc ynglŷn â meysydd lle mae angen cymorth arnynt ac sy'n eu grymuso i gael llais ar faterion sy'n effeithio arnynt. Mae'r llinell gymorth yn cynnig gwybodaeth leol a chenedlaethol, yn eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol, neu'n rhoi cyngor neu eiriolaeth wedi'i  theilwra os oes angen.

**Goblygiadau Ariannol** :

Bydd angen ymgynghori'n llawn â phob parti er mwyn ystyried y dichonolrwydd o ran logisteg, goblygiadau cost, a hefyd gofynion deddfwriaethol datblygiadau o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 12:** Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod rôl yr anogwr dysgu'n cael ei diffinio'n ddigon eglur i sicrhau y daw cymorth personol yn fwy cyson ac effeithiol i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed. Dylai'r rôl hon sicrhau bod yna gynllun mentora effeithiol ar gyfer pob dysgwr.

**Ymateb - Derbyn**

Yn fuan, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol ar ddarparu Gwasanaethau Cymorth Dysgu o dan adran 40 Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Bydd dysgwyr, o dan Lwybrau Dysgu 14-19, yn gallu troi at wasanaethau cymorth dysgu i'w helpu i wneud dewisiadau deallus am eu dysgu ac i oresgyn unrhyw rwystrau i wireddu eu potensial i ddysgu. At ddibenion Llwybrau Dysgu 14-19, mae'r gwasanaethau cymorth dysgu'n cynnwys annog dysgu, cymorth personol a chyngor a chyfarwyddyd ar yrfaoedd. Mae'n bwysig iawn bod y sawl sydd ynghlwm â chynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau hyn yn glir ynghylch eu rolau priodol a'u ffiniau. Mae annog dysgu a chymorth personol yn ddwy rôl wahanol. Mae swyddogaeth yr anogwr dysgu'n canolbwyntio ar fwyhau gallu'r person ifanc i ddysgu ac ar gynnal eu cymhelliant i barhau i ddysgu. Mae cymorth personol, yng nghyd-destun y Llwybrau Dysgu 14-19 yn canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr i ddatblygu atebion i'r problemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol sydd yn rhwystrau iddynt barhau mewn dysgu neu i wireddu eu potensial neu a allai ddatblygu'n rhwystrau iddynt.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu cyhoeddi fframwaith arfer da. Bydd y ddogfen yn cynnwys matrics ymarferol i annog dysgu ac rydym wrthi'n trafod honno gyda rhanddeiliaid.

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd y ddwy ddogfen yn sicrhau bod eglurder ynghylch rolau priodol annog dysgu a chymorth personol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd dealltwriaeth ymarferwyr, gwneuthurwyr polisi a dysgwyr o'r gwahaniaeth rhwng annog dysgu a chymorth personol. Mae'r un mor bwysig cydnabod y gwahaniaeth a'r ffiniau priodol rhwng annog a mentora.

Yn ogystal, mae cymorth i ymarferwyr ar gael trwy'r Rhaglen Genedlaethol Hyfforddi Anogwyr Dysgu, sydd wedi hyfforddi dros 1,500 o ymarferwyr ar hyd a lled Cymru yn y swyddogaeth annog dysgu hyd yma. Bydd datblygu'r rhaglen uned-seiliedig newydd yn cynnig mwy o gyfleoedd am hyfforddiant fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a helpu codi ymwybyddiaeth o'r materion a amlinellwyd uchod.

At hynny, un o'r prif wahaniaethau rhwng manyleb y rhaglen ddysgu seiliedig ar waith bresennol a'r fanyleb rhaglen a fydd yn ei holynu o fis Awst 2011 ymlaen yw y bydd yn ofynnol i Ddarparwyr Dysgu ddarparu cymorth a chyfarwyddyd Annog Dysgu fel rhwymedigaeth gytundebol, yn unol â Llwybrau Dysgu 14-19 ar gyfer pob lefel o raglenni pobl ifanc. Bydd pedair haen o gymorth i ddysgwyr. Dyma nhw:

- Cymorth Annog Dysgu – mynediad at anogwr dysgu wedi'i enwi naill ai yn sefydliad y darparwr neu drwy drydydd parti, a fydd yn rhoi cyngor i'r dysgwyr ar sut i fwyhau eu gallu a'u sgiliau dysgu eu hunain.

- Mynediad i Gymorth Personol – mynediad i'r cymorth personol sydd ar gael trwy'r Gwasanaethau Cymorth Dysgu, os bydd y dysgwyr angen hynny fel rhan o'u Llwybrau Dysgu 14-19.

- Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd – yr hawl i wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd arbenigol a diduedd ar yrfaoedd a ddarperir gan ymgynghorwyr proffesiynol Gyrfa Cymru.

- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith – Yr hawl i raglenni Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith fel a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 13:** Bod Llywodraeth Cymru'n adolygu sut mae darparwyr yn cyrchu'r gronfa cymorth dysgu ychwanegol, ac yn cael gwared â'r rhwystrau sy'n eu gwneud hi'n fwy anodd i ddarparwyr ei chyrchu ar gyfer pobl ifanc nad oedd ganddynt "ddatganiad" yn yr ysgol.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Bydd fy swyddogion yn adolygu elfen cymorth ychwanegol Dysgu Seiliedig ar Waith fel rhan o broses dendro dysgu seiliedig ar waith ar gyfer 2011/14. Bydd darparwyr llwyddiannus yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r broses yn ystod sesiynau cyfathrebu a drefnwyd ar gyfer y Gwanwyn 2011.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 14:** Bod Llywodraeth Cymru'n nodi ffyrdd y gellir cefnogi cyflogwyr yn agosach ac yn eu rhoi ar waith i helpu i gynnal lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, a gyhoeddwyd ar 12 Ionawr 2011 yn nodi dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o gefnogi plant a phobl ifanc (gan gynnwys pobl ifanc agored i niwed a'r sawl gydag anghenion dysgu ychwanegol) i droedio i'r farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chyflogwyr i gynyddu cyfleoedd am brofiad gwaith i bobl 14-24 oed, gan adeiladu ar fentrau cadarnhaol presennol gyda'r bwriad o rannu arfer da ledled Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn cynnwys dwy weithred amlwg sy'n ymwneud â'r argymhelliad hwn a fydd yn cael eu symud yn eu blaen:

- Cynyddu cyfleoedd am brofiad gwaith i'r bobl 14-24 oed ledled Cymru, gan gynnwys ymestyn cyfleoedd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat a gwirfoddol; a
- Cheisio gosod y dull cyffredinol o droi at ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl ifanc agored i niwed a'r sawl gydag anghenion dysgu ychwanegol, a bydd yn llywio trefniadau arweinyddiaeth yr awdurdod lleol trwy adeiladu ar fentrau cadarnhaol ar draws pob sector (gan gynnwys sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus) a dadansoddi ardaloedd â phroblem o ran pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gyda'r bwriad o rannu arfer da.

Bydd fy swyddogion yn yr Uned Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc yn symud y gwaith hwn yn ei flaen.

**Goblygiadau ariannol**

Bydd goblygiadau ariannol symud yr argymhelliad hwn yn ei flaen yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith a amlinellwyd uchod.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 15**: Bod Llywodraeth Cymru’n cyflwyno cymorth ychwanegol ar gyfer y rheini sy’n byw’n annibynnol ac sydd ar raglenni dysgu seiliedig ar waith o ddechrau’r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd yn 2011. Dylid cyflwyno newidiadau i sicrhau bod eu hincwm wythnosol yn gyson ag incwm y rheini sy’n byw’n annibynnol ac sy’n dilyn cyrsiau amser llawn mewn addysg bellach.

**Ymateb: Gwrthod**

Er fy mod i’n derbyn pwysigrwydd symud ymlaen i alinio’r trefniadau cymorth dysgu’n fwy i ddysgwyr 16-18 oed nad ydynt yn gyflogedig, gwrthodaf yr argymhelliad hwn fel y cynigiwyd.

Dylai pecyn cymorth cyson a chydlynol fod ar gael i ddysgwyr 16-18 oed heb fod yn gyflogedig cymwys ni waeth ble mae’r dysgu’n digwydd yn y sector a ariennir yn gyhoeddus. Byddai’r egwyddor sylfaenol yn alinio rhwng y ddarpariaeth cymorth dysgu trwy feini prawf cymhwyster; prawf modd; a throthwyon incwm cartrefi, lle bo’n briodol, ar gyfer y cynhyrchion sydd ar gael i ddysgwyr 16-18 oed nad ydynt yn gyflogedig.

Ystyriaf hefyd, o fewn yr amgylchedd ariannol presennol, nad yw cyflwyno cymorth ychwanegol i ddysgu seiliedig ar waith i’r dysgwyr hynny sy’n byw yn annibynnol yn fforddiadwy.

Mae Cynllun LCA Cymru yn gwahardd ariannu deuol fel talu LCA mewn perthynas â chwrs neu leoliad gwaith y mae person ifanc yn cael ei dalu amdano neu’n cael lwfans hyfforddiant. Mae swyddogion wrthi’n ymchwilio i ymarferoldeb ymestyn LCA i Hyfforddiaethau o 2012 ymlaen i ddisodli’r lwfans cynhaliaeth hyfforddiant. Petai LCA yn cael ei gyflwyno i Hyfforddiaethau o 2012 ymlaen, bydd dysgwyr sy’n byw’n annibynnol yn gallu gwneud cais i DWP a’r Ganolfan Byd Gwaith am gymorth cynnal yn yr un ffordd â dysgwyr LCA presennol. Byddai hyn yn sicrhau bod adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru’n cael eu clustnodi i’r rheini y mae eu hangen fwyaf a bod cymorth ychwanegol sy’n berthnasol i fyw’n annibynnol yn cael ei ddarparu gan adran berthnasol llywodraeth y DU, lle bo hynny’n briodol.

I’r cyfranogwyr hynny yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ac sy’n byw i ffwrdd o’u rhieni, byddai cael LCA yn caniatáu i fudd-daliadau, megis budd-dal tai, o dan y trefniadau presennol, barhau i gael eu talu gan alluogi eu hincwm wythnosol i fod yn unol â’r rheini sy’n byw’n annibynnol ac sy’n dilyn cyrsiau amser llawn mewn addysg bellach.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol â’r argymhelliad hwn gan fod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 16:** Bod y Llywodraeth, fel rhan o’i hadolygiad o drefniadau cymorth ar gyfer costau, yn ystyried sut orau y gellir cefnogi’r rhieni sydd fwyaf agored i niwed fel nad yw costau a logisteg teithio’n eu rhwystro rhag cymryd rhan. Fel rhan o’i hystyriaethau, dylai’r Llywodraeth ystyried a ddylai’r darparwr dalu am gostau teithio o flaen llaw ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, yn hytrach na defnyddio system ad-dalu.

**Ymateb - Gwrthod**

Trwy’r cyfarwyddyd presennol, anogir darparwyr eisoes i fod yn hyblyg o ran gwneud taliadau i ddysgwyr ymlaen llaw lle gallai’r costau dan sylw fod yn waharddol i’r dysgwr, er enghraifft, prynu tocyn teithio tymhorol. Lle gwneir taliad cyn mynd i gostau, anogir darparwyr i wneud taliadau mewn rhandaliadau oherwydd bydd hyn o gymorth i leihau colledion petai dysgwr yn tynnu’n ôl o’u rhaglen ddysgu. Byddai cyflwyno ad-daliad cost llawn ar gyfer teithio i rai dysgwr ac nid eraill mewn Hyfforddiaethau yn ychwanegu at gymhlethdod a biwrocratiaeth ac o bosibl yn arwain at angen am gyfraniad wythnosol mwy gan grwpiau eraill yn yr Hyfforddiaethau; fel arall, byddai’n rhaid gwneud arbedion rhywle arall yng nghyllideb y rhaglen. At ei gilydd, rwy’n credu ei bod hi’n rhesymol i ddysgwyr wneud cyfraniad wythnosol o £5 tuag at gostau teithio o gofio’r amgylchedd ariannol presennol a chyllideb gyfyngedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Hyfforddiaethau.

**Goblygiadau ariannol**

Dim goblygiadau ariannol.

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 17:** Bod Llywodraeth Cymru’n darparu canllawiau i ddarparwyr rhaglenni dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod penderfyniadau sy’n ymwneud â didynnu tâl yn ystyried sefyllfa unigol y dysgwr ac nad ydynt yn achosi caledi anghymesur.

**Ymateb – Gwrthod**

Mae nodiadau arweiniad i gyd-fynd â manyleb rhaglen newydd 2011 - 2014 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i ddarparwyr ar dalu lwfansau i’r dysgwyr a digwyddiadau lle gellir stopio taliad dysgwr.

Wrth ddechrau ar y rhaglen Hyfforddiaethau, bydd dysgwyr yn cael gwybod yn llawn ar bapur am delerau ac amodau eu contract a byddant yn llwyr ymwybodol o’r amgylchiadau lle bydd eu lwfansau’n cael eu stopio. Os gwneir

y penderfyniad i fabwysiadu LCA prawf modd, mae'n ffaith y bydd **pobl ifanc agored i niwed**, h.y. **y rheini sy'n byw i ffwrdd o'u rhieni**, sy'n colli eu hawl i LCA ar gyfer yr wythnos honno o bosibl, yn parhau i gael eu hawliau am fudd-dal ac felly ni ddylid effeithio'n andwyol arnynt.

**Goblygiadau ariannol**

Dim goblygiadau ariannol

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 18:** Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod unrhyw newidiadau i lwfansau hyfforddi'n ystyried y set benodol o amgylchiadau y mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn eu hwynebu, ac nad ydynt yn arwain at incwm llai.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Yn fuan, byddaf yn ystyried cynnig i ymestyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) prawf modd i ddysgwyr ar olynydd rhaglen Adeiladu Sgiliau [Hyfforddiaethau] ar ryw bwynt yn ystod cyfnod cyfamodol 2012 i 2014.

I'r cyfranogwyr hynny yr ystyrir eu bod yn **agored i niwed** ac sy'n **byw i ffwrdd o'u rhieni**, byddai cael LCA yn caniatáu i fudd-daliadau, megis budd-dal tai, barhau i gael eu talu gan alluogi eu hincwm wythnosol i fod ar lefel foddhaol.

Fodd bynnag, er yr hoffwn ddiogelu lefel y lwfans a delir i unrhyw ddysgwr 16-18 oed heb fod yn gyflogedig ac sydd mewn addysg bellach neu hyfforddiant cyn  belled ag sy'n bosibl, ni allaf sicrhau na fydd cynlluniau i'r dyfodol yn arwain at gwymp yn lefel y lwfans.

Fel y nodais yn fy ymateb i Argymhelliad 15, mae'n bwysig darparu pecyn cymorth cyson a chydlynol fod ar gael i ddysgwyr heb fod yn gyflogedig i sicrhau trefniadau cymorth dysgu i ddysgwyr 16-18 oed heb fod yn gyflogedig ni waeth ble mae'r dysgu'n digwydd yn y sector a ariennir yn gyhoeddus.

**Goblygiadau ariannol**:

Bydd goblygiadau ariannol yn rhan o'r ystyriaethau o ran a fydd LCA prawf modd yn cael ei gyflwyno ai peidio i Hyfforddiaethau o 2012 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 19:** Bod Llywodraeth Cymru'n egluro'r newidiadau arfaethedig i lwfansau hyfforddi yn well ar gyfer darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cymorth i sicrhau eu bod yn gallu cynghori darpar ddysgwyr orau ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ac ar effaith ariannol eu penderfyniadau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r newidiadau hynny a fydd yn dod i rym ym mis Awst 2011 wedi'u hamlinellu ym manyleb y tendr ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith. Bydd y penderfyniad ar unrhyw newidiadau pellach o 2012 ymlaen yn cael eu gwneud yn fuan a'i gyhoeddi. Sylwaf fod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth am natur gymhleth budd-daliadau a llifoedd ariannu. Hoffwn roi trefniadau ar waith dros amser a fydd yn symleiddio llifoedd ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cymorth i ddysgwyr a darparu trefniadau cymorth teg ar gyfer dysgwyr 16-18 oed heb fod yn gyflogedig.

**Goblygiadau ariannol:**

Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u hystyried yn llawn ac wedi'u prisio fel rhan o'r tendro ar gyfer rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith newydd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 20:** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau casglu data ynghyd sy'n ymwneud â phrofiad y dysgwr, ac yn ei fonitro. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol cael ffordd effeithiol i asesu profiadau dysgwyr o ddysgu seiliedig ar waith. Dylai hyn fod yn elfen allweddol o reoli perfformiad a dylid dechrau eu casglu fel rhan o'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod pwysigrwydd safbwyntiau dysgwyr fel dangosydd ansawdd, ac mae wedi rhoi 'llais y dysgwr' wrth wraidd y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16. Mae'n ofynnol i'r holl ddarparwyr ôl-16 gael strategaethau ffurfiol ar gyfer cael dysgwyr i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Fel rhan o'r tendr presennol ar gyfer contractau dysgu seiliedig ar waith o 2011/2014, gwerthuswyd mecanweithiau'r darparwyr ar gyfer casglu, gwerthuso a gweithredu ar adborth y dysgwyr.

Mae gan yr holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith drefniadau ar waith i gasglu gwybodaeth am safbwyntiau dysgwyr, yn flynyddol o leiaf. Fodd bynnag, cydnabyddwn nad yw'r rhain mor effeithiol ag y gallent fod bob amser; bod angen 'dolen adborth' glir er mwyn i ddysgwyr allu gweld pa ymateb maent yn ei gael i'w safbwyntiau; a bod trefniadau ar gyfer lefelau gwerthuso a meincnodi bodlonrwydd dysgwyr angen bod yn gyson ar draws Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae swyddogion yn datblygu system newydd ar gyfer arolygon dysgwyr ar draws y sector ôl-16. Bydd hyn yn seiliedig ar set graidd o gwestiynau a fydd yn cael eu gweinyddu gan bob darparwr yn eu harolygon dysgu; bydd y cwestiynau, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, yn ymdrin â safbwyntiau'r dysgwyr ar y canlynol:

- Cyngor a chyfarwyddyd
- Addysgu a dysgu
- Ymatebolrwydd
- Cymorth i ddysgu
- Lles

Felly, byddant yn rhoi trosolwg eang o brofiad cyffredinol y dysgwyr o ddysgu, a byddant yn amlygu arfer da a meysydd ar gyfer gwelliant ar gyfer pob darparwr.

Cynhaliwyd arolwg llais dysgwyr peilot graddfa fawr ar ddechrau 2010 gyda sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith; dychwelodd dros 6,000 o ddysgwyr seiliedig ar waith ymatebion. Mae'r swyddogion bellach yn datblygu cynlluniau i gyflwyno model llais y dysgwyr 'dan arweiniad darparwyr' ar draws Cymru ar ddechrau 2012.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid yw'r goblygiadau ariannol yn hysbys ar hyn o bryd ond byddant yn cael eu nodi ar ôl datblygu cynlluniau wedi'u costio.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 21:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd y gellir mesur a monitro effeithiolrwydd cymorth bugeiliol fesul darparwr yn y contractau dysgu seiliedig ar waith newydd, er mwyn sicrhau cysonder rhwng yr holl ddarparwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn, Bydd hwn yn rhan o'r arolwg llais y dysgwyr 'dan arweiniad darparwyr', fel y disgrifiwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 20.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid yw'r goblygiadau ariannol yn hysbys ar hyn o bryd ond byddant yn cael eu nodi ar ôl datblygu cynlluniau wedi'u costio.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 22:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu goddefiad "gadael cyn gorffen" derbyniol ar gyfer darparwyr a monitro darparwyr yn erbyn hyn o ddechrau'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.

**Ymateb: Derbyniwyd**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae gwella canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr yn flaenoriaeth allweddol o'n Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ac fel y mae'r Pwyllgor wedi nodi, rydym wedi gweld

gwelliannau sylweddol yng nghanlyniadau dysgu seiliedig ar waith dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn ceisio'n barhaus i hogi'n mesurau perfformiad a gosod targedau heriol er mwyn i'r duedd hon barhau.

Y prif fesur perfformiad ar gyfer rhaglenni Adeiladu Sgiliau yw symud ymlaen at ddysgu neu gyflogaeth bellach. O 2010/11 ymlaen, mae'r mesur hwn yn cael ei gryfhau i ddynodi dilyniant i ddysgu ar lefel uwch; mae trefniadau casglu data wedi'u newid i gefnogi'r gofyniad hwn, a ddyluniwyd i leihau 'ailgylchu' dysgwyr trwy raglenni Adeiladu Sgiliau mynych ar yr un lefel. Rydym hefyd yn mesur cyflawniad cymwysterau dysgwyr. I ryw raddau, mae'r ddau fesur hyn yn ymgorffori cyfraddau cadw dysgwyr, gan nad yw'r rhai sy'n gadael yn gynnar heb symud ymlaen yn cael eu cyfri'n 'llwyddiannus'. Fodd bynnag, cydnabyddwn yr angen i ganolbwyntio'n fwy penodol ar 'adael cyn gorffen' a byddwn yn ystyried sut gellir monitro hyn fel rhan o'r contractau dysgu seiliedig ar waith newydd.

Rhagwelir y bydd y rhwydwaith darparwyr newydd, trwy sefydlu consortia a gostyngiad yn nifer gyffredinol y contractau dysgu seiliedig ar waith, yn helpu gwella cyfraddau cadw dysgwyr ac yn sicrhau pontio wedi'i gynllunio rhwng rhaglenni a, lle bo'n briodol, darparwyr dysgu.

**Goblygiadau ariannol**:

Dim goblygiadau ariannol gan nad oes unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 23:** Bod protocolau eglur yn cael eu sefydlu i alluogi Gyrfa Cymru i ddwyn sylw Llywodraeth Cymru ac Estyn ar bryderon ynglŷn â pherfformiad gwael, a bod holl wasanaethau Gyrfa Cymru'n defnyddio'r protocolau hyn i ddod â meysydd pryder i'r amlwg.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae fy swyddogion wedi cadarnhau y bydd yr argymhelliad hwn yn destun ystyriaeth bellach a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal i ystyried sefydlu protocolau i alluogi ar gyfer nodi a chyfeirio perfformiad gwael.

Mae swyddogion wedi cytuno y dylai Gyrfa Cymru fod yn rhan o unrhyw waith monitro, cyfathrebu a threfniadau protocol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael eu datblygu i wella ansawdd a chyflwyniad y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith.

Barn fy swyddogion hefyd yw bod darparwyr hyfforddiant eu hunain yn rhan o'r penderfyniadau ac o weithredu unrhyw weithdrefnau neu brotocolau newydd.

**Goblygiadau ariannol**:

Ni fydd unrhyw oblygiadau cyllidebol ar wahân i gostau adnoddau staff yn cael eu bodloni o'r gweithlu presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 24:** Bod Llywodraeth Cymru'n dynodi asiantaeth arweiniol megis Gyrfa Cymru, i weithio ar lefel leol i sicrhau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed. Fel rhan o hyn, rydym yn argymell ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi'r holl sefydliadau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor ar y sail bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio nodi asiantaeth arweiniol gyda chyfrifoldeb am bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc).

Sylwaf fod argymhelliad tebyg wedi'i gynnwys yn adroddiad ***"Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru"***. Yr argymhelliad oedd y dylai Gyrfa Cymru gael rôl arweinyddiaeth wrth ddyfeisio a chydlynu strategaethau partneriaeth leol i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gwrthodais yr argymhelliad hwn yn amodol ar ganlyniad gwaith Uned Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc Is-adran Busnes a Sgiliau APADGOS.

Mewn perthynas â'r ail fater o fapio i nodi pob sefydliad sy'n darparu cymorth i bobl ifanc agored i niwed, unwaith eto roedd hwn yn argymhelliad yn yr adroddiad Uchelgeisiau'r Dyfodol uchod "i sefydlu system olrhain a rheoli data cenedlaethol mewn perthynas â'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant". Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan amlinellu sut y gallai cronfa ddata bresennol Gyrfa Cymru ffurfio'n ddefnyddiol conglfaen 'adnodd olrhain a rheoli data' mwy cynhwysfawr ar gyfer y bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gan gysylltu datblygiadau Cadw mewn Cysylltiad. Fodd bynnag, mae'r argymhelliad hwn ar stop hyd nes y gwneir penderfyniadau ar strwythur a chyllidebau i'r dyfodol a gallent gael eu symud yn eu blaen wrth inni ddatblygu gwasanaeth gyrfaoedd unedol. Bydd y canlyniad yn dibynnu ar achos busnes grymus.

***Yn ogystal, mewn ymateb i bwysau ariannu cynyddol ac anghynaliadwy a phryderon cysylltiedig a fynegwyd gan ddarparwyr, dysgwyr a rhieni, galwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Gwanwyn 2010. Mae adroddiad y Grŵp, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010, yn argymell mwy o gysondeb o ran dull ar draws Cymru, cydweithredu rhanbarthol a mwy o sylw i well canlyniadau ar gyfer dysgwyr a gwerth am arian yn y broses gomisiynu. Bydd Grŵp***

***Cyflwyno a Gweithredu'n cael ei ffurfio yn 2011 i symud yr argymhellion yn eu blaen.***

**Goblygiadau ariannol**:

Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried wrth i bob agwedd ar yr argymhelliad hwn gael ei archwilio ymhellach.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 25:** Bod Llywodraeth Cymru'n ystyried sut gellir cefnogi ac ariannu'r rhwydweithiau 14-19 orau i sicrhau eu bod yn cynnwys pob sector addysg, ac i hwyluso gweithio mor effeithiol â phosibl mewn partneriaeth.

**Ymateb - Gwrthod**

Mae'r rhwydweithiau 14-19 ym mhob awdurdod lleol yn gyrff anghyfansoddiadol felly ni ellir eu hariannu'n uniongyrchol. Darperir nawdd grant 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol sy'n defnyddio'u rhwydweithiau fel mecanwaith i gefnogi cydweithredu effeithiol rhwng darparwyr dysgu, gan gynnwys ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, a sicrhau bod y cwricwlwm lleol yn sicrhau bod pob dysgwr, 14-19 oed yn gallu mynd at eu hawl lawn i ddewis ehangach yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol sy'n nodi sut maent yn bwriadu defnyddio'u grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i fodloni blaenoriaethau lleol a gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Datblygir y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol gan y rhwydwaith.

Mae nawdd 14-19 yn ogystal â'r RSG, arian ôl-16 a Chontractau Dysgu Seiliedig ar Waith a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau statudol ar ffurfio'r cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Mae hyn yn gosod cyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach i gydweithredu wrth ffurfio'r cwricwlwm lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn ystyried y sefyllfa ariannu tymor hwy. Sefydlwyd 'Gweithgor Cynaliadwyedd' i edrych ar y mater cymorth parhaus i Lwybrau Dysgu 14-19 a sicrhau bod awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn parhau i fodloni eu cyfrifoldebau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 y tu hwnt i 2012, yn enwedig mewn perthynas â chydweithredu i fodloni gofynion y cwricwlwm lleol.

Anelodd prosiect Gweddnewid Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a ariennir gan APADGOS, a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2009 ac mae

disgwyl iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2011, at sicrhau bod dysgu seiliedig ar waith yn cael ei ystyried yn rhan annatod o'r ddewislen a byddai'n mynd i'r afael â phedair her:

a. Gweithio'n agosach ac yn agored gydag ysgolion a Rhwydweithiau 14-19
b. Gweithio'n agosach ac yn agored yn y sector dysgu seiliedig ar waith
c. Gwneud dysgu seiliedig ar waith yn gymaint o ran o gwricwlwm yr ysgol ag astudiaeth academaidd ac yn y rhaglenni Gweddnewid
d. Cymryd y camau cyntaf mewn cydweithredu a phartneriaeth i ehangu'r cwricwlwm gan alluogi amrywiaeth a dewis.

**Goblygiadau ariannol**:

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Leighton Andrews AC**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**